Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	26 Gorffennaf 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd/Pennaeth Cymunedau a Gwasanaethau Cymunedau a Chwsmeriaid
Awdur yr Adroddiad	Pennaeth Gwasanaethau Cymunedau a Chwsmeriaid
Teitl	Cronfa Ffyniant Gyffredin

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Du, rhan o'r agenda Ffyniant Bro.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth i'r Cabinet ar y trefniadau lleol ar gyfer cynllunio a darparu Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol.

2.2. Ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr argymhellion a amlinellwyd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Rhoi cymeradwyaeth i ddatblygu'r rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin o fewn Sir Ddinbych ac yn rhanbarthol drwy fewnbwn swyddog, yn unol ag egwyddorion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

3.2. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd i ddatblygu a chyflwyno blaenoriaethau Sir Ddinbych ar gyfer cynnwys yn y Strategaeth Fuddsoddi ranbarthol fel y gall cyllid y rhaglen gael ei dynnu i lawr.

3.3. Bod y cynnig i ofyn i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol i gyflwyno'r Strategaeth Fuddsoddi ranbarthol i Lywodraeth y DU ac i arwain darpariaeth rhaglen ddilynol yn cael ei gefnogi.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae eglurhad o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, cynnydd hyd yma a'r camau nesaf i'w gweld yn Atodiad 1.

5. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

5.1. Mae pedwar y cant o werth y rhaglen yn gallu cael ei dynnu i lawr gan y corff arwain rhanbarthol ar gyfer rheoli rhaglen, gweinyddu a monitro a gwerthuso. Mae arian yn gallu cael ei ddyrannu o'r swm hwn ar gyfer pob awdurdod lleol i gynnwys costau rheoli rhaglen felly ni ddylai'r rhaglen fod yn faich ychwanegol i gyllid y Cyngor.

5.2. Nid yw Llywodraeth y DU angen i lywodraeth leol ddarparu arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen er yr anogir hynny Mae'n bosibl y bydd y Cyngor, er mwyn mwyhau argaeledd cyllid cyfyngedig neu i gydymffurfio gyda deddfwriaeth rheoli cymhorthdal, angen i sefydliadau ymgeisio am gyllid o'r rhaglen i ddarparu elfen o arian cyfatebol

5.3. Bydd rheoli a darparu'r rhaglen angen i'r Cyngor recriwtio staff dros dro a all greu risg o rwymedigaethau cost dileu swyddi ar ddiwedd y rhaglen yn 2025/26.

6. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

6.1. Gan fod hwn yn brosiect cydweithredol ar draws Gogledd Cymru ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Les hyd yma, ond mae'r effeithiau canlynol wedi eu nodi.

6.2. Hirdymor: Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu prosiectau sy'n gallu dangos effaith y tu hwnt i barhad y rhaglen.

6.3. Atal: Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu prosiectau sy'n gallu dangos eu bod yn mynd i'r afael â materion gwaelodol yn hytrach na mynd i'r afael â symptomau yn unig.

6.4. Integreiddiad, Cydweithio, Ymglymiad: Mae'r Cyngor eisoes wedi cynnal ymgynghoriad ar y blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen. Bydd y Cyngor, o dan flaenoriaethau priodol, yn sefydlu ceisiadau am gynigion agored fel y gall ystod eang o sefydliadau gyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau.

6.5. Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu prosiectau sy'n gallu dangos eu bod wedi eu hintegreiddio i bartneriaethau a rhaglenni lleol ehangach yn hytrach na sefydlu at ddibenion sicrhau cyllid o'r rhaglen yn unig.

6.6. Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu prosiectau sy'n gallu dangos eu bod yn mynd i'r afael â'r Nodau Lles.

7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

7.1. Mae yna weithdai a chyfarfodydd rhanbarthol i gynnwys rhanddeiliaid i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen mewn perthynas â sgiliau a chyflogaeth. Mae'r mwyafrif o raglenni sgiliau a chyflogaeth wedi tueddu i gael eu darparu ar ôl troed rhanbarthol neu isranbarthol oherwydd cyffredinrwydd anghenion y cleientiaid a'r gallu i sicrhau arbedion maint.

7.2. Yn lleol, mae'r Cyngor wedi cynnal un gweminar mewnol ac un allanol, gyda sylwadau gan dimau'r Cyngor, partneriaid allanol, cynrychiolwyr trydydd sector a'r gymuned fusnes. Bydd yr adborth o'r sesiynau hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen yn Sir Ddinbych.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1. Wrth gwrs, bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn rhan bwysig o'r sefyllfa gyllid wrth symud ymlaen fel gyda chyllid yr UE yn y gorffennol. Mae yna oblygiadau risgiau ac adnoddau fydd yn fwy amlwg wrth i ni fynd drwy ddatblygiad y strategaeth. Croesewir y ffaith ei bod yn bosibl ar hyn o bryd i alinio'r cyllid gydag elfennau o weithgaredd presennol sydd wedi profi ei fod yn gweithio a gellir ei gysylltu i flaenoriaethau CSDd. Mae adnodd cyllid ymroddedig bellach wedi'i ddyrannu i gefnogi'r rhaglen.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Risg	Lliniaru
Recriwtio	

Bydd y rhaglen angen recriwtio nifer o staff i reoli a darparu'r rhaglen. Bydd angen recriwtio ar frys oherwydd amserlen gyfyngedig y rhaglen a bydd y Cyngor yn cystadlu gyda phob Cyngor arall yn y DU am ymgeiswyr.	Bydd hyn yn risg strategol i'r rhaglen a'r mwyafrif o brosiectau o fewn y rhaglen. Nid oes camau lliniaru uniongyrchol yn bosibl ond bydd monitro agos yn helpu'r Cyngor i gymryd camau unioni ble bo'n bosibl.
Disgwyliadau Mae yna risg y bydd sefydliadau ble nad yw'r blaenoriaethau a phrosiectau hynny wedi eu blaenoriaethu yn beirniadu'r Cyngor.	Bydd y Cyngor angen bod yn glir o'r camau cynharaf ar y dull a gymerir i osod y blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen a'i strategaeth ddarparu gan gynnwys sut y bydd yn gwahodd ac yn dewis cynigion gan drydydd partïon.
Lluosydd Mae graddfa'r rhaglen yn ymddangos yn anghymesur i'r angen nas diwallwyd yn ein cymunedau ac mae yna ddarpariaeth bresennol ar gael ar gyfer yr anghenion hyn.	Trafodaeth bellach ar y lefel strategol ar y dull gofynnol i ddarparu Lluosydd a cheisio mwy o hyblygrwydd i ganiatáu i adnoddau gael eu defnyddio yn fwy eang.

10. Pŵer i wneud y penderfyniad

10.1. Mae swyddogaethau awdurdod datblygu economaidd y Cyngor yn gyfrifoldeb ar y Cabinet yn unol â chyfansoddiad y Cyngor a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007.